

# Prospectws Ysgol Carreg Emlyn Prospectus



**Pennaeth / Headteacher**  
**Mrs Rhian Thomas**  
**01824 750636**

[www.ysgolcarregemlyn.cymru](http://www.ysgolcarregemlyn.cymru)

Instagram - @ysgolcarregemlyn

# Prospectws Ysgol Carreg Emlyn Prospectus

Clocaenog  
Rhuthun  
Sir Ddinbych  
LL15 2AY

☎ 01824 750636

[ysgol.carreg.emlyn@sirddinbych.gov.uk](mailto:ysgol.carreg.emlyn@sirddinbych.gov.uk)

[www.ysgolcarregemlyn.cymru](http://www.ysgolcarregemlyn.cymru)



**Pennaeth**

Mrs Rhian Thomas

**Headteacher**

**Cadeirydd  
Llywodraethwyr**

Ms Sian Eryddon Davies  
Pant Glas Isaf  
Bontuchel  
Rhuthun  
LL15 2BS  
☎ 01824 748198

**Chair of Governors**

**Pennaeth  
Addysg**

Mr Geraint Davies  
Swyddfa'r Cyngor Sir  
Ffordd Wynnstay  
Rhuthun  
☎ 01824 708009

**Head of Education**

## **Llywodraethwyr/Governors**

<b>Cadeirydd</b>	Sian Eryddon Davies	<b>Chairperson</b>
<b>Is Gadeirydd</b>	Lois Roberts	<b>Vice Chairperson</b>
<b>Aelodau</b>	Gareth Griffiths Sian Jones Aled Rees Ceri Lloyd John Crowhurst Hedd Vaughan Evans	<b>Members</b>
<b>Staff Pennaeth</b>	Zoe Williams Rhian Thomas	<b>Staff Headteacher</b>

## **Staff yr Ysgol/ Members of Staff**

<b>Pennaeth</b>	Mrs Rhian Thomas	<b>Headteacher</b>
<b>Athrawon Dosbarth</b>	Miss Gwenfron Hughes Miss Elan Jones Miss Zoe Williams	<b>Class Teachers</b>
<b>Cymhorthyddion Dosbarth</b>	Mrs Rhian Jones Miss Elen Jones Ms Bethan Petrie	<b>Teaching Assistants</b>
<b>Ysgrifenyddes/Clerc Llywodraethwyr</b>	Mrs Helen Hitchmough	<b>Secretary/Governors' Clark</b>
<b>Cogyddes Cynorthywydd Cegin</b>	Ms Trish Hilton Delyth Jones	<b>Cook Catering Assistant</b>
<b>Gofalwyr Clwb Brecwast</b>	Mrs Heather Jones Mrs Jane Longworth	<b>Breakfast Club Supervisors</b>
<b>Glanhawraig/Gofalwr</b>	Mrs Rose Jackson	<b>Caretaker/Cleaner</b>



## Arwyddair yr Ysgol

Mwynhau Dysgu a Llwyddo Gyda'n Gilydd

## School Motto

Enjoy Learning and Succeeding Together

## Statws yr Ysgol

Mae Ysgol Carreg Emlyn yn Ysgol Gynradd Sirol Naturiol Gymraeg i blant rhwng 3 a 11 oed.

## School Status

*Ysgol Carreg Emlyn is a County Primary Natural Welsh School for children between 3 and 11 years old.*

## Ethos a Gwerthoedd yr Ysgol

Ein pwrpas yn Ysgol Carreg Emlyn yw i gynnig addysg Gymraeg i blant o gymuned wledig, mewn amgylchedd deuluol, diogel, iach a hapus. Mynnwn safonau addysgol a moesol uchel, a sicrhawn fod pob plentyn yn cael pob cyfle i ddatblygu i'w lawn botensial fel unigolyn ac fel aelod llawn o'r gymuned.

Mae gan yr ysgol a'r rhieni gyfrifoldeb dros y plant. O'r funud y bydd eich plentyn yn mynychu Ysgol Carreg Emlyn byddwn yn ei annog/ei hannog i weithio'n galed, gan wneud ymdrech deg bob amser. Byddwn yn ei annog/ei hannog i fod yn ystyrlon o eraill a bod yn gyfrifol am ei ymddygiad/ei hymddygiad ei hun gan barchu amgylchedd ac adnoddau'r ysgol. Teimlwn bod partneriaeth gref rhwng yr ysgol a'r rhieni yn holl bwysig i sicrhau datblygiad llawn y plentyn.

Mae cyfle i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol megis yr Urdd, clybiau chwaraeon, gala nofio ac ymweliadau â gwerysilloedd Glan Llyn, Llangrannog a Chaerdydd.

## **The Ethos and Values of the School**

*Our purpose at Ysgol Carreg Emlyn is to provide Welsh medium education to children from a rural community in a safe, healthy and happy family environment. We insist on high educational and moral standards and ensure that each child gets a chance to develop to their full potential as individuals and full members of the community.*

*Both the school and parents have responsibilities to the children. From the moment of their entry into Ysgol Carreg Emlyn we shall be encouraging your child to work hard, put a great deal of effort into everything they do, care about others and take responsibility for their own behaviour and for caring for the school's environment and resources. We believe that a strong partnership between school and parents is essential to ensure the successful development of the child.*

*There is an opportunity for children to take part in extra-curricular activities, notably, the Urdd, sports clubs, swimming gala and visits to Glan Llyn, Llangrannog and Cardiff Urdd Centres.*

## **Amcanion**

Yr ydym yn amcanu i :-

*Greu awyrgylch fugeiliol, ddeniadol sydd hefyd yn cynnig sialens, lle mae darpariaeth ar gael i gynnal datblygiad cyflawn y plentyn.*

*Cryfhau hunan-hyder, hunan-barch a'r teimlad o fodlonrwydd yn eu llwyddiant.*

*Darparu cwricwlwm eang a chytbwys.*

*Sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle i ddatblygu yn llawn beth bynnag eu rhyw, cenedl, crefydd neu ddiwylliant.*

*Annog y plant i fod yn hunan ddisgybledig gan ddangos gofal a pharchu hawliau ac anghenion eraill.*

*Annog y plant i fod yn annibynnol.*

*Creu balchder yn eu hetifeddiaeth ac ymwybyddiaeth o Gymru, ei hiaith a'i diwylliant.*

## **Aims**

*We aim to:-*

*Provide a caring, challenging and aesthetically pleasing environment, where a thoughtful provision is made for each child's all-round development.*

*Build up confidence, self-esteem and a feeling of satisfaction in each child's own achievements.*

*Provide a broad and balanced curriculum.*

*Ensure that each child is given the opportunity to develop in his / her own right irrespective of gender, race, religion or culture.*

*Encourage the children to be caring and self disciplined, respecting the rights and needs of others.*

*Encourage the children to become independent.*

*Give children a pride in their heritage and an awareness of Wales, its language and its culture.*



## Polisi Codi a Dileu Taliadau

Yn achlysurol fe fydd ymweliadau addysgol yn cael eu trefnu i atgyfnerthu y gwaith yn y dosbarth. Yn ôl y gyfraith, ni all ysgolion fynnu tâl gan y rhieni i wynebu'r gôst yma. Ni fyddwn yn gwahardd unrhyw blentyn rhag mynd ar sail arian. Yng ngoleuni hyn fe fydd yr ysgol yn cadw'r hawl i ddileu unrhyw ymweliad os y bydd yn rhoi gormod o faich ar gyllideb yr ysgol. O dro i dro gwahoddir artistiaid, theatrau, awduron a cherddorion i gynnal gweithdai a pherfformiadau yn yr ysgol; fe fyddwn yn gofyn am gyfraniadau gwirfoddol i wynebu'r gôst yma.

## Charging and Remission Policy

*Occasional educational visits are made to reinforce work done in the classroom. By law, schools cannot charge for these visits, but we do request a donation from parents to cover costs. No child will be prevented from going on financial grounds. However, the school reserves the right to cancel an outing if it places too great a burden on school finances. From time to time visiting artists, theatre companies, writers and musicians will be invited into school to lead workshops and performances; voluntary contributions may be requested to cover the cost of these events.*

## Y Cyngor Ysgol

Yn unol a chanllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae gan yr ysgol Gyngor Ysgol. Cynhelir cyfarfod o'r cyngor chwe gwaith yn ystod y flwyddyn addysgol. Rydym fel ysgol yn croesawu hyn fel modd o roi llais i'r disgyblion ym mywyd yr ysgol. Mae'r Cyngor yn cynhyrchu cylchlythyr yn dilyn pob cyfarfod sydd yn cael ei rannu gyda'n rhieni ac ein gwefan.

## The School Council

*The school has a School Council, in accordance with the Welsh Assembly guidelines. Six meetings are held during the academic year. As a school we welcome this as a means to give pupils a voice in the running of their school. The Council produce a newsletter following each meeting which is shared with our parents and website.*

## Diogelwch

Mae diogelwch eich plentyn yn hanfodol bwysig. Mae system diogelwch mewn grym yn yr ysgol sydd yn cydymffurfio â rheolau tân ac mae ymarfer tân yn cael ei gynnal yn rheolaidd. Mae'r giataiau a drysau i'r safle ar glo yn ystod oriau ysgol. Mae'n rhaid i bob ymwelydd fynd i'r brif fynedfa ac arwyddo mewn i'r safle. Mae aelod o staff bob amser ar ddyletswydd yn ystod amser chwarae ac mae goruchwyliaeth yn ystod amser cinio yn ogystal. Ni chaniateir cŵn ar safle'r ysgol hyd yn oed ar dennyn; gwneir eithriad o gŵn tywys neu ymwelwyr addysgol. Mae'r llywodraethwyr yn ymchwilio i faterion Iechyd a Diogelwch o fewn yr ysgol unwaith y tymor.



## Safety

*Your child's security is of paramount importance. The building has a security system which complies with fire regulations and a fire drill is held frequently. All gates and doors to the site are locked during the school day. All visitors must report to the main entrance and sign in. There is always a member of staff on yard duty and also supervision at dinner time. Dogs are not allowed inside the school perimeter not even if on a lead except for guide dogs or for educational purposes. The governors carry out a Health and Safety inspection once a term.*

## Ymddygiad

*Mae'r plant yn cael eu hannog i ddatblygu parch a chyfrifoldeb tuag at eraill mewn amgylchedd lle mae gan y staff ddisgwyliadau uchel am ymddygiad priodol. Yr ydym yn addysgu'r plant i gydnabod yr effaith gaiff eu hymddygiad hwy ar eraill. Os oes achos lle mae ymddygiad plentyn yn achosi pryder, yna cysylltir â'r rhieni a byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i geisio gwella'r ymddygiad. Mae gan yr ysgol bolisi Atal Bwlio cadarn iawn ac y mae pob disgybl yn ymwybodol na chaiff unrhyw fath o fwlio ei oddef yn yr ysgol. Mae copi o bolisi'r ysgol ar Hyrwyddo Ymddygiad Bositif ynghyd â'r polisi ar Fwlio ar gael o'r ysgol os dymunwch ei weld.*

## Behaviour

*Children are encouraged to develop respect and responsibility within a well-ordered environment where staff have high expectations about appropriate behaviour. We teach children to acknowledge the effect of their behaviour on others. If, on occasion, children do give us cause for concern then we will consult with parents and work together to establish an improvement in behaviour. The school has a firm Anti-Bullying policy and all children are made aware that bullying of any kind is not tolerated in the school.*

*A copy of our school's Promoting Positive Behaviour and Anti - Bullying policy is available from school on request.*

## Gofal Bugeiliol

*Mae cysylltiad agos rhwng ysgol a chartref yn hanfodol i berfformiad a datblygiad plentyn. Mae gan y rhieni yr hawl i gael gwybodaeth am bob agwedd ar fywyd yr ysgol ac rydym yn ceisio anrhydeddu yr oblygiad yma. Yr ydym yn annog rhieni i adael i ni wybod am unrhyw newid ym mywyd plentyn a all gyfrannu neu effeithio ar ei ymddygiad neu ei agwedd at waith.*



*Gofynnir i rieni roddi enwau, cyfeiriad a'u rhifau ffôn, rhag ofn y bydd angen cysylltu â hwy yn ystod oriau ysgol e.e. mewn achos o salwch neu drwy ddamwain. Os ydi plentyn yn absennol, gofynnir i rieni ffonio'r ysgol i adael inni wybod cyn 9.30 y bore.*

## **Pastoral Care**

*Close home/school links are essential for the general well-being and all-round development of the children. Parents have a right to be informed about all aspects of school life and we work hard to fulfil this obligation. We encourage parents to let us know of any changes in a child's life which may affect his/her behaviour or attitude to work.*

*All parents are asked to supply the school with names, address and telephone numbers in case it is necessary to contact someone during school hours e.g. in cases of illness or accident. If a child is absent, we ask that the parents phone the school to let us know before 9.30am.*

## **Polisi Derbyn Plant**

*Yr A.A.Ll. yw'r awdurdod derbyn ar gyfer pob plentyn. Caiff plant 3 oed a throsodd eu derbyn i'r dosbarth Meithrin y mis Medi ar ôl iddynt gael eu penblwydd yn dair. Gellir trefnu derbyn plentyn i ddosbarthiadau hŷn ar ddechrau hanner tymor neu yng nghanol y tymor a gofynnir i'r rhieni ymgynghori â'r Pennaeth.*

*Caiff darpar rieni eu gwahodd i gysylltu â'r ysgol i drefnu ymweliad yn ystod oriau ysgol, nid yn unig i weld y pennaeth a'r staff ond hefyd i brofi awyrgylch yr ysgol.*

*Dylai rhieni sy'n dymuno trafod datblygiad eu plant wneud apwyntiad tu allan i oriau ysgol gan fod ymweliad dirybudd yn gallu amharu ar wers dosbarth. Am resymau diogelwch gofynnir i bawb sy'n ymweld a'r ysgol yn ystod y dydd fynd i'r brif fynedfa.*

## **Admissions Policy**



*The L.E.A. is the accepting authority for each pupil. Children that are 3 years of age and over will be accepted to the Nursery in the September after their third birthday. Provisions can be made to accept pupils to older classes at the beginning of a term or half term and we ask parents to contact the Headteacher.*


*Prospective parents are invited to contact school to arrange a visit during school hours, not only to meet the Headteacher and staff but also to sample the school atmosphere.*

*Parents of current pupils wishing to discuss their children's development should make an appointment outside school hours. For safety reasons we ask everyone who visits school during the day to report to the main entrance.*



## Y Cwricwlwm

Mae ein plant yn dilyn Cwricwlwm sydd yn unigryw i ni yma yn Ysgol Carreg Emlyn ond sydd hefyd yn dilyn canllawiau Cenedlaethol Cwricwlwm i Gymru. Dyma drosolwg o bob dim yr ydym yn ei gynneg





Mae llais ein plant yn holl bwysig i ni wrth ddylunio ein Cwricwlwm. Byddwn yn casglu eu syniadau nhw o beth yr hoffent ei ddysgu ac yn dilyn y trywydd hwn.

Bydd gweithgareddau a phrofiadau bywyd go iawn yn cael eu trefnu i atgyferntu'r dysgu.

Mae pwerau dysgu ganddom sydd yn arwain at ddatblygu ein plant i fod yn ddysgwyr gyda sgiliau o fewn y pedwar diben.

## The Curriculum

Our children follow a unique Curriculum tailored for Ysgol Carreg Emlyn whilst following the new Curriculum for Wales guidelines. Below is a summary of all that we offer:



Our pupils' voice is extremely important to us when we are designing our Curriculum. We collect their ideas of what they would like to learn and follow their lead.

Activities and real life experiences will be arranged to enrich their learning.

To develop skills associated with the four purposes we have learning powers to help us understand and learn their importance.

## Addysg Uwchradd


Mae'r mwyafrif o blant Ysgol Carreg Emlyn yn trosglwyddo i Ysgol Uwchradd Brynhyfryd ar ddiwedd Blwyddyn 6. Yn ystod eu blynyddoedd 5 a 6 yn Ysgol Carreg Emlyn mae cyfle iddynt fynychu nifer o weithgareddau ar y cyd âg Ysgol Brynhyfryd sy'n hwyluso'r trosglwyddiad o un ysgol i'r llall. Ceir cyfle i wneud ffrindiau ac ymgyswrtu cyn y diwrnod mawr.

## Secondary School

*The majority of children from Ysgol Carreg Emlyn transfer to Brynhyfryd High School at the end of Year 6. In preparation for moving from primary to secondary school they have the opportunity to attend various taster sessions in year 5 and 6. This gives them an opportunity to make new friends and to find their feet before the big move.*

## Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd

Mae addoli ar y cyd yn digwydd yn gyson ac yn benodol Gristnogol. Nid oes gan yr ysgol gysylltiad penodol ag unrhyw enwad crefyddol. Mae Cynllun Dysgu Addysg Grefyddol gan yr Ysgol sydd yn sicrhau trawsdoriad cytbwys ar draws gwahaol elfennau a chrefyddau yn ein gwersi.



## Religious Education and Collective Worship

*Collective Worship at Ysgol Carreg Emlyn takes place frequently and is broadly Christian. The school has no affiliations with a particular religious denomination. We have a Religious Studies Learning Plan to ensure we cover a range of different elements and religion during our lessons.*

## Addysg Gorfforol a Darpariaeth ar gyfer Chwaraeon

Yr ydym yn amcanu at y canlynol:-

- datblygu rheolaeth ar y corff a gwella sgiliau corfforol
- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â symudiad a'r corff
- hyrwyddo agwedd gadarnhaol tuag at ffordd o fyw actif ac iach

Ymgyswrtir ag amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon yn ystod y flwyddyn lle bydd y plant yn cynrychioli'r ysgol, yn cynnwys pêl-droed, rygbi, athletau a nofio. Mae unrhyw blentyn sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau yn cynrychioli'r ysgol; cydnabyddir hyn fel braint sy'n gyfartal â chyflawniad academaidd ac artistig. Mae hefyd yn meithrin ysbryd cyd-dynnu ac yn datblygu

sgiliau cymdeithasu. Rydym yn anelu at roi cyfle i blant o bob gallu gymryd rhan mewn gweithgareddau cystadleuol, mae diwrnod mabolgampau'r ysgol ar ddiwedd tymor yr haf yn brawf o hyn.

Mae pob plentyn o flwyddyn 3 i 6 yn derbyn o leiaf hanner tymor o wersi nofio o fewn pob blwyddyn ysgol.

Disgwylir i'r plant wisgo siorts du, crys-t gwyn ac esgidiau'r gampfa yn ystod y gwersi addysg gorfforol.

## **Physical Education and Provision for Sport**

*We aim to:-*

*develop control of the body and improve physical skills.*

*develop knowledge and understanding about movement and the body,*

*promote a positive attitude to an active and healthy lifestyle.*

*There is a wide range of sports activities undertaken during the year where children represent the school; these include football, rugby, athletics and swimming. Any child taking part in these activities represents the school and this is recognised as a privilege equal to academic and artistic achievement. It also fosters team spirit and the development of physical skills. We aim to give our children of all abilities the opportunity to participate in competitive events, this being apparent during the school's sports day at the end of the summer term.*



*Each child from Yr 3 to Yr 6 receive at least half a term of swimming within each year.*

*Children are expected to wear black shorts, white t-shirt and gym shoes for Physical Education lessons.*

## **Addysg Rhyw a Chydberthnasau**

Mae gan yr Ysgol raglen addysg rhyw a chydberthnasau sydd wedi ei chynllunio yn unol a chanllawiau cenedlaethol a'n cwricwlwm. Mae copi o'r Polisi Addysg Rhyw a Chydberthnasau ar gael yn yr ysgol.

## **Relationships, Sex and Health Education**

*The School has a programme of relationships, sex and health education which has been planned within National guidelines and our Curriculum. The school Relationships, Sex and Health Education Policy is available on request.*

## Anghenion Dysgu Ychwanegol

Credwn fod gan bob plentyn anghenion sydd yn arbennig iddyn nhw boed yn addysgol, cymdeithasol neu emosiynol. Ar adegau fe fydd gan rhai plant anghenion penodol fydd angen darpariaeth ychwanegol. Mae amryw o resymau pam fod rhai plant yn cael anhawsterau gyda dysgu, gall hyn gynnwys anaeddfedrwydd, problemau emosiynol neu gymdeithasol neu broblemau penodol gyda lleferydd neu iechyd. Ein bwriad yw uniaethu gyda'r anghenion hyn mor fuan a phosib. Mae ein Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol yn nodi'r trefniadau mae'n rhaid i ni eu ddilyn, yn gyntaf i adnabod anghenion y plentyn ac yna y ddarpariaeth ychwanegol i gefnogi'r plentyn. Mae'r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cysylltu â swyddogion eraill o fewn yr Awdurdod a chyfeirio plant at arbenigwyr eraill os yw hyn yn angenrheidiol. Mae rhieni yn rhan o'r ymgynghori ac yn cael eu hysbysu a'u cynnwys ym mhob cam. Fel rhan o'r gefnogaeth mae rhai plant yn cael cynnig sesiynau ymyraethau i'w cefnogi.

## Additional Learning Needs

*We believe that all children have educational, social and emotional needs that are special to them. However, at times some children will have specific needs that require extra provision. Children have difficulties in learning for a variety of reasons, which include immaturity, specific speech or health difficulties or social and emotional problems. Our intention is to identify these needs as early as possible. Our Additional Learning Needs Policy, which is available on request, details the procedure we must follow, firstly for the identification of the child's needs and then for the extra provision we make to help overcome these difficulties. The schools Additional Learning Needs Co-ordinator liaises with other professionals within the Authority and may refer children to other specialists if necessary. Parents are consulted, informed and involved at all stages. Some children will attend intervention sessions to support them.*

## Asesu

Mae asesu yn broses barhaol. Mae asesiad yr athro o gam presennol o ddatblygiad plentyn a'r anghenion sy'n deillio ohono, yn digwydd ym mhob pwnc o'r cwricwlwm yn ystod gwaith dosbarth o ddydd i ddydd. Asesir pob plentyn ar fynediad i'r feithrin ac yna'n gyson yn ystod eu taith drwy'r ysgol. Fe fydd y data a gesglir o'r asesiadau yn cael ei ddefnyddio i weld a oes angen unrhyw gymorth ychwanegol gan y plentyn. Fe fydd y wybodaeth a gasglwyd yn cael ei rannu gyda rhieni'r plant yn ystod adroddiad cryno a noson rieni yn ystod tymor yr Hydref, noson rhieni yn tymor y Gwanwyn ac adroddiad llawn yn nghymor yr Haf.



## Assessment

*Assessment is a continuous process. Teacher assessment of a child's present stage of development, and consequent needs, takes place for all subjects of the curriculum during the normal work of the school day. Each child is assessed on entrance to the Nursery class and then constantly throughout their journey through school. The data from these assessments is used to see if any child needs extra help e.g. Catchup sessions to give a boost in reading or Mathematics, or to be put on the Additional Learning Needs register to have longer term help. The outcomes of these assessments will be shared with parents during our autumn parent's evenings and a short report in the Autumn term. Parents' Evenings in the Spring term and a full report in the Summer term.*

## Y Defnydd o'r Iaith Gymraeg

Cymraeg yw iaith yr addysgu ym mhob pwnc yn nosbarthiadau y Dysgu Sylfaen. Pan fydd plant di-Gymraeg yn cychwyn yn y feithrin maent yn cael eu hannog i siarad Cymraeg ond mae camau yn cael eu cymryd i wneud yn siwr eu bod yn deall yr hyn a ofynnir ohonynt.

Yn nosbarthiadau y Dysgwyr Hynaf mae pob pwnc craidd heblaw Saesneg yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r pynciau sylfaen yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Os bydd plant yn cael eu derbyn i'r ysgol yn y dosbarth hynaf heb Gymraeg o gwbl, yna mae posib iddynt fynychu cwrs carlam wedi ei drefnu gan yr Awdurdod Addysg Lleol. Fe fydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol ar sail oed y plentyn i weld i ba raddau y byddant yn derbyn yr addysgu trwy gyfrwng y Saesneg. Fe anogir y plant i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith gyfathrebu yn y dosbarth, yn ystod amser chwarae a thu hwnt i furiau'r ysgol. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod pob plentyn yn cael addysg gyflawn faint bynnag eu medr yn y Gymraeg.



## The Use of the Welsh Language

*Welsh is the language of the teaching in all subjects in the Foundation Learners.. When children start school in the Nursery with little or no knowledge of the Welsh Language they are encouraged to speak Welsh but provisions are made to ensure that they understand what is asked of them.*

*In the Older Learners' class all core subjects except English are taught through the medium of Welsh. The foundation subjects are taught through the medium of Welsh and English. If a child is registered into school into this class with no previous knowledge of the Welsh Language, then there is an opportunity for them to attend a crash course organised by the County. Every case will be looked at separately, depending on the age of the child, to assess the degree of teaching*

*through the medium of English. We encourage the children to use the Welsh language as the means of communicating in the classroom, playtime and outside the school environment. Every effort is made to ensure that a child receives a full education whatever degree of his / her ability in the Welsh language.*

### **Siarter Iaith Gymraeg**

*Mae'r ysgol yn ran o gynllun Y Siarter Iaith sy'n hybu'r defnydd o'r Gymraeg y tu mewn a thu allan i'r ysgol. Rydym yn annog teuluoedd i wyllo S4C, gwranddo ar gerddoriaeth Cymraeg, mynd a'r plant i glybiau tu allan i'r ysgol sy'n cael eu rhedeg trwy gyfrwng y Gymraeg ayyb er mwyn dangos i'r plant fod yr iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio y tu allan i furiau'r ysgol. Mae'r ysgol wedi derbyn Gwobr Aur y Siarter Iaith am ei gwaith yn hybu'r Gymraeg yn yr ysgol a thu hwnt.*

### **Welsh Language Charter**

*The school is part of the Welsh language Charter scheme which promotes the use of the Welsh language within and outside the school. We encourage all families to watch S4C, listen to Welsh music, take the children to activities organised through the medium of Welsh etc so that the children realise that Welsh is also used outside of the school environment. The school has received the Welsh Language Charter Gold Award for it's work promoting the Welsh language inside and out of school.*

### **Rhieni a'r Ysgol**

*Mae plant yn dysgu yn llawer gwell pan fydd rhieni ac athrawon yn cydweithio ac yr ydym yn annog y bartneriaeth hon. Yr ydym yn gofyn i'r plant ddarllen adref. Mae cymorth rhieni yn trafod a chynorthwyo'u plant i ymarfer sgiliau darllen yn amhrisiadwy.*

*Mae noson rieni ddwywaith y flwyddyn lle mae cyfle i drafod datblygiad eich plentyn gyda'r athrawon perthnasol. Os dymunwch, fe fydd y staff yn barod i neilltuo amser i drafod eich plentyn ar unrhyw amser yn ystod y flwyddyn os y gwnewch apwyntiad o flaen llaw.*

### **Parents and the School**

*Children learn more effectively when teachers and parents work together and we encourage this partnership. All children are asked to read at home. Your assistance in discussing the stories and helping the children to practise their reading skills is invaluable.*

*There are parents evenings twice a year, when you can discuss progress with your child's class teacher. However,*



*staff will always make themselves available to discuss your child at any time during the year if you wish to make an appointment.*

## **Cyfle Cyfartal**

*Mae'r plant yn gweithio mewn grwpiau rhywogaeth cymysg ac mae pob plentyn yn cael cyfle i gymryd rhan yn holl weithgareddau'r ysgol. Mae cyfle cyfartal iddynt gynorthwyo gyda gorchwylion dydd i dydd o fewn y dosbarth. Yr ydym yn ceisio sicrhau nad yw themau, llyfrau a.y.y.b. o fewn yr ysgol yn portreadu rôl stereo yn ffafrio un rhywogaeth.*

## **Equal Opportunities**

*The children work in mixed gender groups and have equal opportunities to participate in all school activities. They also make an equal contribution to the various day to day tasks in the classroom. Care is taken to see that topics, literature etc. within the school, do not portray a stereotyped role, for either male or female.*

## **Disgyblion ag Anableddau**

*Mae safle'r ysgol yn addas ar gyfer derbyn disgyblion ag anableddau corfforol. Pe bai plentyn ag anabledd corfforol yn mynegi diddordeb mewn ymuno â ni yn Ysgol Carreg Emlyn fe wneir pob ymdrech i addasu'r safle ymhellach, os oes angen, fel na chaiff ei drin yn wahanol i unrhyw blentyn arall.*

## **Children with Disabilities**

*The school site is suitable for children with physical disabilities. Should a child with a physical disability show an interest in joining us at Ysgol Carreg Emlyn, every effort would be made to adapt the school further, if needed, thus ensuring he / she is treated in the same way as all the other children.*

## **Cwynion**

*Mae anghydfod a chamddealltwriaeth yn codi ei ben weithiau yn ystod diwrnod prysur ysgol. Yn aml iawn fe all y rhain gael eu datrys trwy siarad a thrafod gyda'r athro/athrawes dosbarth. Os nad yw hyn yn ddigonol yna fe ddylai'r gŵyn gael ei chyflwyno i'r Pennaeth yn gyntaf, yna os na lwyddir i'w datrys dylid anfon y gŵyn yn ysgrifenedig at Gadeirydd y Llywodraethwyr. Mae copi o Bolisi Cwynion yr ysgol ar wefan yr ysgol.*





## Complaints

*Misunderstandings can sometimes arise in the busy everyday life of school. Usually these can easily be resolved by speaking to your child's class teacher. If you still have a concern or complaint then see the Headteacher first and if the problem continues contact the Chairman of the Governors in writing. There is a copy of the schools Complaints Policy on the school website.*

## Presenoldeb

Rydym yn gofyn i rieni beidio cymryd gwyliau yn ystod y tymor ysgol ac hefyd i geisio cael apwyntiadau meddygol y tu allan i oriau ysgol ble mae'n bosib. Os ydych am gymeryd eich plentyn allan o'r ysgol am unrhyw gyfnod a wnewch chi ofyn i'r ysgol am y ffurflen 'Cais am Absenoldeb'. **Ni fydd yr ysgol yn awdurdodi absenoldebau gwyliau** ac felly os byddwch yn mynd a'ch plentyn ar wyliau yn ystod amser ysgol bydd yn absenoldeb di awdurdod. Dyma ydi canllawiau Cyngor Sir Ddinbych. Fe ddylai absenoldebau oherwydd salwch neu argyfwng gael eu hysbysu i'r ysgol drwy alwad ffôn neu ebost cyn 9.30yb.

## Attendance

*We ask parents not to take children out of school on holidays during term time and to organise medical appointments outside school hours whenever possible. If you intend to take your child out of school for any period of time please ask for an 'Absence Request' form. **The school will not authorise holiday absences** and therefore if you take your child on holiday during term time it will be an unauthorised absence. These are the guidelines from Denbighshire County Council. Absence due to illness or emergency should be reported to the school by telephone or email by 9.30am.*

## Meddygol

Os yw eich plentyn yn dioddef o unrhyw alergedd neu gyflwr meddygol yna gofynnir i chwi ein hysbysu.

Fe fydd nyrs yn ymweld â'r ysgol i brofi golwg, clyw a thyfiant. Ni fydd eich plentyn yn cael ei archwilio gan feddyg heb eich caniatad, ag eithrio mewn argyfwng meddygol. Mae pob archwiliad meddygol yn hollol gyfrinachol ac ni fydd unrhyw wybodaeth sydd yn deillio o'r archwiliad yn cael ei rannu gydag unrhyw aelod o'r staff heb ganiatad y rhieni.

Lle bynnag y bo modd dylai rhieni/gwarcheidwaid disgyblion y mae arnynt angen meddyginiaeth yn ystod oriau ysgol ddod i'r ysgol i roi'r feddyginiaeth i'w plentyn. Rhaid i'r ysgol dderbyn ffurflen ganiatad gweinyddu meddyginiaeth wedi ei lenwi gan riant/gwarcheidwad y disgybl yn gofyn i'r ysgol roi meddyginiaeth yn ystod oriau ysgol. Nid yw'r ysgol yn derbyn unrhyw feddyginiaeth nad yw ar bresgripsiwn. Rhaid i enw'r disgybl gael ei nodi'n glir ar yr holl feddyginiaeth. Rhaid i'r rhiant/gwarcheidwad nôl y feddyginiaeth o'r ysgol ar ddiwedd dydd. Anogir rhieni/gwarcheidwaid i ofyn i'w meddyg teulu a yw'n bosibl amseru rhoi meddyginiaeth y tu allan i oriau ysgol arferol

Bydd staff sy'n gwirfoddoli i roi meddyginiaeth arbennigol yn derbyn hyfforddiant cywir cyn y caniateir iddynt roi'r meddyginiaeth i unrhyw ddisgybl. ( e.e. epipen.)

Mae gofyn i blant sydd yn dioddef o'r fogfa ddod â'u pypiau i'r ysgol lle bydd yr athrawon yn eu cadw mewn lle diogel. Bydd gofyn llenwi ffurflen ganiatad gweinyddu meddyginiaeth i gydfynd a phypiau'r fogfa hefyd.

Mae problem genedlaethol gyda llau y pen ac rydym yn argymhell pob rhiant i archwilio gwallt eu plant yn rheolaidd.

Os ydy plentyn wedi cael dolur rhydd neu wedi taflu fyny yna dylid eu cadw adref am 48 awr.

## Medical

*Please inform us if your child has any allergies or medical conditions.*



*The school nurse will visit school to check sight, hearing and growth. Your child will not be examined by the School Doctor without your permission, except in a medical emergency. All medicals are strictly confidential and your consent will be sought before discussing any issues with school teaching staff.*

*Whenever possible parents of children who need medication during school hours should come into school to administer the medication to their child. The school must receive filled consent form to administer medication to their child during school hours. The school will not accept any medication that is not on prescription. The child's name must be noted clearly on all medication. Parents must come to school to collect the medication at the end of the school day. Parents are advised to ask their doctor if it is possible to administer the medication outside school hours if at all possible.*

*Staff who volunteer to give specialist medication will receive correct training before they are allowed to administer medication to any pupil. ( e.g. epipen)*

*Children suffering from Asthma should bring their inhalers to school and the members of staff will store them safely. The school must receive filled consent form to administer medication along with the asthma pump.*

*If a child has been vomiting or has diarrhoea they must not return to school for 48 hours.*



*There is a nationwide problem with head lice and we recommend that all parents check their child's hair regularly.*

## Amddiffyn Plant

Mae arweiniad gan yr Adran Addysg a Llywodraeth Cymru yn dangos yn glir bod gan ysgolion ran bwysig i chwarae mewn amddiffyn plant rhag eu camdrin. Cadarnheir hyn gan bolisi Cyngor Sir Ddinbych sydd yn gosod canllawiau i holl aelodau o staff eu dilyn. Mae ganddom ni fel ysgol ddyletswydd felly i gyfeirio unrhyw gonsyrn am gyflwr y plant i'r Adran Gwasanaethau Gymdeithasol. Mae gan yr ysgol drefn gyfeirio glir ac y mae'r holl staff yn ymwybodol o'r drefniant. Bydd holl wybodaeth cyfrinachol am blant yn cael ei storio mewn ffeil gyfrifiadurol wedi ei amgryptio neu mewn ffeil bapur wedi cael ei storio dan glo. Os oes gennych bryder am ddiogelwch unrhyw blentyn yn yr ysgol y person penodedig sy'n gyfrifol am Amddiffyn Plant yw: **Mrs Rhian Thomas** Os nad ydy hi yma rhowch wybod i **Miss Gwenfron Hughes**.



## Child Protection

*The Department for Education and Welsh Assembly guidance makes it clear that schools have an important role to play in the protection of children against abuse. This is confirmed by the Policy of Denbighshire County Council which sets out the necessary procedures to be followed by all staff. We have a duty as a school therefore to refer any concerns about the well-being of the pupils to the Social Services Department. The school has a clear referring procedure that all the staff are aware of. Any confidential information about children are stored in encrypted computer files or paper files that are kept under lock and key. If you have any concerns about the safety of any child at school the person with specific responsibility for child protection in school is : **Mrs Rhian Thomas** In her absence please contact **Miss Gwenfron Hughes**.*

## Y Diwrnod Ysgol / The School Day

Clwb Brecwast	7.45 - 8.50 am	Breakfast Club
Disgyblion yn cyrraedd yr ysgol	8.50 - 9.00 am	Pupils arrive at school
Cychwyn sesiwn y bore	9.00 am	Morning session begins
Amser chwarae	10.30 - 10.45 am	Playtime
Gorffen sesiwn y bore	12.00pm	Morning session ends
Amser cinio	12.00 - 1.00 pm	Lunch break

Cychwyn sesiwn y prynhawn	1.00 pm	<i>Afternoon session begins</i>
Amser chwarae	2.00 - 2.15 pm	<i>Playtime</i>
Gorffen sesiwn y prynhawn	3.15pm	<i>Afternoon session ends</i>

**Nid oes unrhyw drefniadau i oruchwylio plant sydd yn cyrraedd yr ysgol cyn 8.50 am. nac ychwaith i fod yn yr ysgol ar ôl 3.20 pm. (oni bai eu bod yn mynychu y Clwb Brecwast neu Clwb Caenog - y clwb ar ôl ysgol.)**

***There are no provisions for supervision of children who arrive before 8.50 am. nor to be in school after 3.20 p.m. (unless they are booked in to Breakfast Club or Clwb Caenog - the after school club)***

### **Clwb Brecwast**

Mae Clwb Brecwast ymlaen yn ddyddiol o 7.45 y bore hyd at 8.50 yb. Mae'r brecwast am ddim a cost y gofal yw £1 y plentyn y dydd. Mae'n rhaid archebu lle i'ch plentyn yn y Clwb Brecwast o flaen llaw.



### **Breakfast Club**

*Breakfast Club runs from 7.45 am to 8.50am each morning. The breakfast is free and the supervision cost is £1 per child per day. You will need to book your child into Breakfast Club beforehand.*

### **Clwb Caenog**

Mae Clwb Caenog (clwb ar ôl ysgol) ymlaen o 3.20 tan 5.15 y prynhawn pob prynhawn (4.15 ar brynhawn Dydd Gwener). Nid yw Clwb Caenog yn ran o'r ysgol ond yn cael ei redeg ar wahan. Cysylltwch a'r ysgol am fwy o wybodaeth am gofrestru eich plentyn, prisiau ac ati.

*Clwb Caenog ( after school club) runs from 3.20 until 5.15 pm every afternoon (4.15 on a Friday afternoon).. This is not part of the school and is run seperately. Contact the school for more details about enrolling your child, prices etc.*

## Gwisg Ysgol

Yr ydym yn annog y plant i wisgo gwisg swyddogol yr ysgol, sef:-

Crys Chwys porffor â logo'r ysgol arni.

Crys/Crys polo (gwyrdd [jade] â logo'r ysgol arni neu wyn)

Pinaffor / Sgert lwyd/trowsus du neu lwyd

Ffrog borffor a gwyn gingham (Haf)

Trowsus du neu lwyd/Trowsus byr

Esgidau duon

Sanau duon/llwyd/gwyn - dim rhai lliwgar

Teits llwyd/ du

Mae'r Crysau Chwys/Crysau Polo ar gael o **Workplace Worksafe LTD**. Uned 1E, Lon Parcwr, Rhuthun. LL15 1LY, ☎ 01824 709500.

Ar gyfer gwersi addysg gorfforol fe fydd gan eich plentyn angen siorts du, crys-t gwyn plaen ac esgidiau addas.

Gwnewch yn siwr eich bod yn labelu dillad eich plentyn.

## School Uniform

*We encourage all pupils to wear the school uniform which is:-*

*Purple sweatshirt with the school logo*

*White shirt/blouse/polo shirt (white or jade green with the school logo)*

*Grey skirt/grey or black trousers/pinafore*

*Lilac and white gingham dress (Summer)*

*Grey/Black trousers/shorts*

*Black Shoes*

*White/black/grey socks - not coloured ones.*


*Black/grey tights*

*Sweat shirts and polo shirts with the school logo can be ordered from **Workplace Worksafe LTD**. 1E Lon Parcwr, Rhuthun, LL15 1LY ☎ 01824 709500*

*For P.E. your child will need black shorts, plain white T-shirt/ suitable shoes. All clothing should be clearly marked with your child's name.*

## Cinio Ysgol

Mae cinio ysgol am ddim i bob plentyn oedran Derbyn hyd at Flwyddyn 6. Y mae croeso i'ch plentyn ddod â phecyn bwyd i'r ysgol os yw'n dymuno. Gan ein bod yn Ysgol Iach gofynwn



yn garedig i chi sicrhau fod y pecyn bwyd yn un iach a ddim yn cynnwys siocled, fferins, creision neu ddiod llawn siwgwr. Hefyd awgrymir eich bod yn rhoi pecyn rhew yn y bocs bwyd i'w gadw'n oer gan nad oes gennym le oer i storio'r bocsys bwyd.

### **School Meals**

*School meals are free for every child from Reception up to Year 6. If you wish, you can provide your child with a packed lunch which can be eaten in the school. As we are a Healthy School we kindly ask you to provide a healthy lunch with no chocolate, sweets, biscuits or sugary drinks. We also suggest that you put an ice pack in the lunchbox to keep it cold as we don't have a cold place to store the lunchboxes.*

### **Ysgol Iach / Ecosgolion**

Mae'r ysgol yn rhan o gynllun Ysgolion Iach Sir Ddinbych ac wedi cael Gwobr Genedlaethol y cynllun yn Rhagfyr 2017. Mae'r ysgol hefyd yn ran o gynllun Ecosgolion ac wedi derbyn y Wobr Blatinum.

Ni chaniateir i'r plant ddod a fferins na chreision i'r ysgol i'w bwyta yn ystod amser chwarae. Darperir ffrwythau am bris rhesymol a llaeth am ddim i blant dan 7 oed.

Caiff y disgyblion eu hannog i ddod a botel ddŵr i'r ysgol ac fe'i hannogir i yfed dŵr yn gyson. Mae peiriant dŵr ar y ddau lawr.

### **Healthy Schools/ Eco Schools**

*The school is part of the Denbighshire Healthy Schools Scheme and in December 2017 we achieved the National Award. The school is also part of Eco Schools and has achieved the Platinum award.*

*Sweets and crisps are not permitted to be brought to school for eating during break times. Fruit is provided at a reasonable cost and free milk for children under 7. The children are asked to bring a water bottle into school daily and they are encouraged to drink water regularly. There is a water machine on both floors.*

### **Clwb ar ôl Ysgol/ Clwb yr Urdd**

Cynhelir clwb ar gyfer disgyblion Blwyddyn 3 i 6 un prynhawn yr wythnos. Bydd y gweithgareddau'n amrywio yn ôl yr amser o'r flwyddyn e.e. Celf, Garddio, Crefft, Cyfrifiaduron neu Chwaraeon. Anogir pob disgybl i ymaelodi â'r Urdd.



### **After School Clubs/ Urdd Club**

*A club is held for Year 3 to 6 pupils after school on one afternoon per week. The activities vary according to the time of year e.g.*

*Art, Craft, Gardening, Computers or Games. All pupils are encouraged to become members of the Urdd (Welsh League of Youth).*

## **Diogelwch Haul**

*Yn ystod yr haf rydym yn annog y plant i wisgo het haul i gysgodi eu hwynebau a'u pennau rhag yr haul. Gofynnwn hefyd i rieni roi eli haul ar y plant cyn dod i'r ysgol ar ddiwrnodau heulog. Gellir gael eli haul ffactor uchel sy'n parhau i ddiogelu'r plant drwy'r dydd.*

## **Sun Safety**

*During the Summer months we encourage the children to wear sun hats to protect their heads and faces from the sun. We also ask parent to apply sunscreen on their children before coming to school on sunny days. It is possible to buy high factor sunscreen that can protect your child all day.*

## **Cysylltiad â'r Gymuned**

*Mae gan yr ysgol berthynas glos â'r gymuned leol. Mae'r plant yn cael eu hannog i warchod eu hamgylchfyd a bod yn aelodau cyfrifol ohono. Bob blwyddyn yr ydym yn gwneud ymdrech i godi arian tuag at elusennau. Yr ydym yn gwahodd aelodau'r gymuned i weithgareddau'r ysgol e.e. cyngherddau, gwasanaethau neu ffeiriau. Rydym hefyd yn cefnogi eisteddfodau a sioeau lleol drwy annog y plant i gystadlu.*

## **Links with the Community**

*The school has a very close relationship with the local community. The children are encouraged to take care of their environment and to be responsible members of the community. Each year the school raises funds for various charities. We invite the local community to school events such as concerts, services and fairs. We also support local eisteddfodau and shows by encouraging the children to compete.*



## **Cyfeillion yr Ysgol**

*Mae cymdeithas weithgar iawn yn yr ysgol. Maent yn cyfarfod pob tymor i drefnu gweithgareddau i godi arian, gweithgareddau cymdeithasol a chefnogi'r ysgol mewn amryw ffyrdd. Croesawn rieni newydd i ymuno yng ngweithgareddau Cymdeithas Cyfeillion yr Ysgol.*

## **Friends of the School**

*There is a very active association in school. They meet every term to arrange various events to raise money, social events and support the school in various ways. We hope new parents will take an active role within the Friends of the School Association.*

## **Cyswllt gyda Rhieni**

Mae cylchlythyr wythnosol yn cael ei baratoi a'i rannu gyda rhieni ar Ddydd Gwener drwy ebost ac ar ein app ysgol. Yn yr app mae hefyd calendr blwyddyn gyda pob dyddiad pwysig ynddo yn barod er mwyn hwyluso pethau i'n rhieni.

Mae'r Ysgol yn defnyddio SeeSaw i rannu gwybodaeth gyda rhieni am weithgareddau a gwaith o fewn y dosbarthidaau.

Mae gan yr Ysgol gyfrif Instagram @ysgolcarregemlyn lle y byddwn yn rhannu gwybodaeth am weithgareddau a llwyddiannau yr Ysgol. Rydym wrth ein boddau yn cael gwahodd ein rhieni i'r ysgol ac mae amryw i weithgareddau yn cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn lle yr ydym yn estyn croeso i rieni a pherthnasau ymuno a ni.

## **Contact with Parents**

*We have a weekly newsletter which is prepared and shared with our parents usually on a Friday via email and our School App. The App also contains a calendar with all of the important dates throughout the year to make things easier for our parents.*

*The School uses SeeSaw to share information about activities and work within the classrooms. The School has an Instagram account @ysgolcarregemlyn where we share information about activities and achievements.*

*We hold various events throughout the year where we welcome parents and relatives to attend.*

## **Lles**

Mae lles pob un plentyn yn holl bwysig i ni yma yng Ngharreg Emlyn ac yn sicr yn flaenoriaeth. Mae cyfle i bob blentyn gael rhannu os oes unrhyw beth yn eu poeni bob bore wrth gyrraedd yr Ysgol drwy system tracio teimladau sydd ar waith ym mhob dosbarth. Yn ystod y dydd os oes rhywbeth ar eu meddwl mae bocs teimladau ar gael yn y cyntedd iddynt gael ysgrifennu nodyn i adael i rhywun wybod. Mae sesiynau meddwlgarwch ac amser cylch yn cael eu paratoi yn rheolaidd ar gyfer ein plant. Os oes unrhyw bryder ganddoch chi rieni am eich plentyn mae croeso cynnes i chi gysylltu gyda'u hathro neu y Pennaeth ar unrhyw adeg.

## **Wellbeing**

*The wellbeing of every child is vitally important to us here in Carreg Emlyn and is certainly a priority. There is an opportunity for each child to share if there is anything bothering them as they enter the classroom first thing in each morning through a feelings tracker system. During the day if there is something on their mind they can talk to anyone or there is a feelings box in the corridor where they can write a note to let someone know. Mindfulness and Circle time sessions are offered frequently for our children. If there is any concern about your child you are more than welcome to contact their teacher or the Headteacher at any time.*



